


Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2020/21

Fersiwn Cryno (Drafft)



Cynnwys	
Cyflwyniad – Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau	3
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	4
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	4
Dibenion y Parc a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol	4
Datganiad ac Amcanion Llesiant APCAP	5
Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy yn ein Gwaith	6
Dyletswydd Adran 6	6
Y cyd-destun strategol	6
Cyllid	7
Ffrydiau gwaith APCAP am 2020/21	8
Ymgyrchoedd yr Awdurdod ar Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol	9
Amcan Llesiant Llewyrchus: Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden.	10
Amcan Llesiant Cydnerth: Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol.	11
Amcan Llesiant Iechyd a Lles: Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwy wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau.	12
Amcan Llesiant Cydraddoldeb: Amcan Llesiant Cydraddoldeb: Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC.	13
Amcan Llesiant Cymunedol: Annog cymunedau i ymgysylltu'n fwy â'r Parc Cenedlaethol.	14
Amcan Llesiant Diwylliant: Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal.	15
Amcan Llesiant Byd-eang: Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.	16
Llywodraethu, Cynaliadwyedd Ariannol, Datblygiad a Gwydnwch y Gweithlu	17

Gellir anfon sylwadau ar y fersiwn hon neu fersiynau eraill o'r Cynllun Corfforaethol i gwybodaeth@pembrokeshirecoast.org.uk gan roi Cynllun Corfforaethol fel pwnc neu gellir ysgrifennu at APCAP, Parc Llanion, Doc Penfro, SA72 6DY.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, h.y. testun hawdd ei ddarllen, testun mawr, sain, a fyddech gystal â chysylltu â gwybodaeth@pembrokeshirecoast.org.uk / 01646 624800

Cyflwyniad – Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau

Mae'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru wedi cytuno i weithio i fformat cyffredin o ran ein Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau blynyddol i fodloni gofynion [Mesur Llywodraeth Leol \(Cymru\) 2011](#) a [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#). Y ddogfen hon yw ein Cynllun Gwella Blynyddol Rhan 1 ac mae'n nodi ein Hamcanion Llesiant a'r rhaglen waith sy'n gwbl gyson â'r amcanion hynny ar gyfer 2020/21. Hefyd mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu yn unol â'r egwyddorion o ddatblygu yn gynaliadwy.

Bob blwyddyn mae'r Awdurdod yn dechrau ar y gwaith o gynllunio ymlaen ac ar y gwaith o baratoi cyllideb yn ystod mis Hydref er mwyn cymeradwyo cyllideb gytbwys erbyn Chwefror y 15fed. Mae'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn wynebu galw cynyddol, a'r galwadau hynny weithiau yn gwrthdaro, i gyflawni materion cadwraeth, mynediad i'r cyhoedd, cyflogaeth leol a thai fforddiadwy, ar adeg pan fo adnoddau'n cael eu cyfyngu.

Wrth baratoi'r cynllun hwn, rydym wedi adolygu'r camau a gymerwyd yn ystod y blynyddoedd blaenorol, wedi cynnal trafodaethau gyda'r staff, gan gynnwys sesiwn gyda'r uwch dîm rheoli, wedi cynnal gweithdy i'r Aelodau ar y gyllideb, ac wedi ystyried unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth a pholisïau ac mewn cyllid a allai effeithio ar ein gwaith.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cafodd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei ddynodi ym 1952 dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

"Nodweddion arbennig" y Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yw:

Hygyrchedd	Ysblander arfordirol
Daeareg amrywiol	Amrywiaeth y dirwedd
Treftadaeth ddiwylliannol	Ynysoedd
Amgylchedd hanesyddol cyfoethog	Lle i anadlu
Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth	Natur anghysbell, llonyddwch a gwylltineb
Cymeriad unigryw aneddiadau	Amrywiaeth y profiadau a'r cyfuniad o nodweddion unigol

Mae'r Parc Cenedlaethol yn gorchuddio ardal ag arwynebedd o 612km², gydag oddeutu 23,000 o bobl yn byw mewn rhyw 50 ardal cyngor cymuned. Mae'r rhan fwyaf o'r Parc Cenedlaethol mewn perchnogaeth breifat gyda'r Awdurdod yn berchen ar 1% yn unig.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cafodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei greu fel awdurdod lleol dibenion arbennig annibynnol dan [Ddeddf yr Amgylchedd 1995 \(y Ddeddf\)](#). Mae'r Awdurdod yn cynnwys 18 o Aelodau, 12 ohonynt wedi'u henwebu gan Gyngor Sir Penfro a chwe wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru.

Dibenion y Parc a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

Mae [Deddf yr Amgylchedd 1995](#) yn nodi mai Dibenion Awdurdod Parc Cenedlaethol yw

- ✓ **Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ardal y parc**
- ✓ **To promote opportunities for the understanding and enjoyment of the special qualities of the area by the public.**

Hefyd mae'r Ddeddf yn datgan bod gan yr Awdurdod ddyletswydd wrth arddel y dibenion uchod, i geisio meithrin lles cymdeithasol ac economaidd y cymunedau lleol.

Bob pum mlynedd, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol sy'n nodi sut y dymunai weld y Parc Cenedlaethol yn cael ei reoli, nid yn unig gan yr Awdurdod ei hun, ond gan yr asiantaethau a sefydliadau eraill y gallai eu gweithgareddau effeithio ar y Parc.

Cafodd Cynllun newydd Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2020-2024 ei gymeradwyo fis Rhagfyr 2019. Mae'r Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol diwygiedig yn cymryd i ystyriaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, y naw egwyddor o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. Y cynllun diwygiedig hwn fydd yn llywio blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau blyneddol yr Awdurdod o 2020 ymlaen.

Yr Awdurdod yw'r awdurdod cynllunio statudol ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol ac mae'n gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig yr Awdurdod wedi bod yn mynd drwy archwiliad yn 2019 gyda'r bwriad o fabwysiadu'r Cynllun yn 2020.

Datganiad ac Amcanion Llesiant APCAP

Mae gan yr Awdurdod saith o Amcanion Llesiant sy'n cyfrannu at y Nodau Llesiant a hefyd sy'n ffurfio ein hamcanion gwella am y flwyddyn nesaf o dan y Mesur Llywodraeth Leol. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r amcanion.

Amcanion Llesiant APCAP	Sut rydyn ni'n cyfrannu at nodau llesiant ar gyfer Cymru
Llewyrchus: Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden.	✓ 'Cymru Lewyrchus'. – Drwy hyrwyddo busnesau cynaliadwy a chefnogi'r diwydiant twristiaeth drwy weithio i ymestyn y tymor twristiaeth traddodiadol a chynnal yr ased twristiaeth a hamdden allweddol yn y Parc, sef Llwybr yr Arfordir. ✓ 'Cymru Gydnerth' – Drwy gefnogi twristiaeth gynaliadwy a rheolaeth hamdden yn y Parc. ✓ 'Cymru Iachach' – Drwy gynnal a hyrwyddo Hawliau Tramwy Cyhoeddus a helpu i gynnwys mwy o bobl mewn gweithgareddau cerdded a gweithgareddau cysylltiedig.
Cydnerth: Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol	✓ 'Cymru Gydnerth' – Drwy gyfrannu at wella iechyd ecosystem Cymru a cheisio mynd i'r afael â'r mater o golli bioamrywiaeth yn y Parc. ✓ 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang' – Drwy weithgareddau sy'n ymateb i golli bioamrywiaeth sydd hefyd yn cefnogi'r her o ymateb i newid yn yr hinsawdd sy'n gysylltiedig â'i gilydd. ✓ 'Cymru o Gymunedau Cydlynus' – Drwy gynnig cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn edrych ar ôl ecosystem y Parc.
Iechyd a Lles: Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwy wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau	✓ 'Cymru Iachach', 'Cymru sy'n fwy Cyfartal', 'Cymru o Gymunedau Cydlynus' - Drwy hyrwyddo defnydd mwy rheolaidd o'r awyr agored, bydd profiadau awyr agored i blant, annog gwirfoddolwyr, a chael gwared ar rwystrau i allu manteisio ar yr amcan hwn, yn arwain at fanteision cadarnhaol i les corfforol a meddyliol pobl ac yn helpu i fynd i'r afael â materion megis arwahanrwydd cymdeithasol.
Cydraddoldeb: Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC.	✓ 'Cymru sy'n fwy Cyfartal', 'Cymru Iachach', 'Cymru o Gymunedau Cydlynus' - Drwy weithio tuag at gyflawni ein nodau tymor hir yng Nghynllun Cydraddoldeb yr Awdurdod a chwalu'r rhwystrau rhag gallu manteisio ar gyfleoedd yn y Parc, bydd yr Awdurdod yn cefnogi'r nodau hyn.
Cymunedol: Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i gael y gorau o'r Parc Cenedlaethol.	✓ 'Cymru Gydnerth', 'Chymru â diwylliant bywiog' – Drwy ddenu cyfraniad cymunedau, cymunedau buddiant megis tîrfeddianwyr a grwpiau lleol, a gwirfoddolwyr mewn gweithgareddau sy'n cefnogi ecosystemau a threftadaeth Cymru.

	✓ 'Cymru o Gymunedau Cydlynus.' – Drwy hyrwyddo cyfleoedd i bobl ddod ynghyd yn y Parc sydd hefyd yn helpu i leihau arwahanrwydd cymdeithasol. ✓ 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang' – Drwy gynorthwyo cymunedau i ddatblygu prosiectau sy'n ymateb i'r argyfwng newid yn yr hinsawdd drwy ailffocysu ffocws y gronfa CDC.
Diwylliant: Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal.	✓ 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.' – Drwy gefnogi gweithgareddau sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n ceisio ennyn cyfranogiad mwy o bobl yn y gweithgareddau hyn. ✓ 'Cymru o Gymunedau Cydlynus,' 'Cymru Gydnerth.' – Drwy ennyn cyfranogiad cymunedau a gwirfoddolwyr i edrych ar ôl safleoedd treftadaeth.
Byd-eang: Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.	✓ 'Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang' - Drwy ymateb i her fyd-eang yr argyfwng Newid Hinsawdd, tra hefyd yn ennyn diddordeb pobl mewn natur, yr awyr agored a threftadaeth i gael eu hysbrydoli i edrych ar ôl a dysgu am y byd o'u cwrpas. ✓ 'Cymru Gydnerth', 'Cymru Lewyrchus', 'Cymru Iachach' – Bydd gweithgareddau sy'n ymateb i'r argyfwng Newid Hinsawdd hefyd yn cyfrannu at y nodau hyn gan eu bod yn gysylltiedig â'i gilydd.

Sustainable Development Principles in our Work

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy – Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio a Cynnwys.

Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Dyletswydd Adran 6

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod o dan [Ddeddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#) ystyried y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau o dan y Ddeddf. Mae gweithgareddau o fewn y ffrydiau gwaith sydd â'r nod o gyflawni ein Hamcanion Llesiant, yn benodol amcanion cydnerthedd a llesiant byd-eang, yn helpu i integreiddio'r ddyletswydd Adran 6 yn ein gwaith.

Cyd-destun Strategol

Mae ein Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau yn cymryd y canlynol i ystyriaeth:

- Y naw egwyddor o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru).
- Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a glustnodir yn y datganiad ysgrifenedig Tirweddau Dynodedig: Gwerthfawr a Chydnerth, a meysydd polisiâu blaenoriaeth eraill Llywodraeth Cymru.

- Meysydd prosiect a glustnodwyd yn y Cynllun Llesiant ar gyfer Sir Benfro.
- Camau gweithredu o fewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol APCAP 2020-2024 a Strategaeth y Gymraeg 2017-2022.
- Effaith y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Cyllid

Mae gwariant refeniw net yr Awdurdod ar gyfer 2020/21 yn cael ei bennu gan Lywodraeth Cymru, drwy ddyrannu Grant y Parciau Cenedlaethol £1,776,000 blyneddol a'r ardoll ar £3,939,000. Codir incwm a gynhyrchir yn lleol o rhyw £1,673,000 o ffioedd cynllunio, taliadau mynediad, gwerthu nwyddau, meysydd parcio ac ati.

Rhagolygon Cyllideb 2020/21

Incwm	
	£000's
Grant Llywodraeth Cymru	2,954
Ardoll Awdurdod Lleol	985
Incwm a Gynhyrchir gan yr Awdurdod	1,776
Trosglwyddiad o Gronfeydd	1,010
Llog Banc	15
Cyfanswm	6,740

Gwariant		
Amcan Llesiant APCAP	Adnoddau (£000's)	
Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden	1,257	18%
Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol	1,128	17%
Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwu wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau	983	15%
Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC	736	11%
Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i gael y gorau o'r Parc Cenedlaethol	749	11%
Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal.	1,136	17%
Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.	751	11%
Cyfanswm	6,740	100

APCAP - Ffrydiau gwaith ar draws yr amcanion llesiant ar gyfer 2020/21

Llewyrchus	Cydnherthu	Iechyd a Lles	Cydraddoldeb	Cymunedol	Diwylliant	Byd-eang	Llywodraethu / Ariannol	Gwasanaethau Cynnal
Polisiâu Cynllunio a'r Gwasanaeth Cynllunio	Gwasanaeth Rheoli Tir Cadwraeth	Cyfleoedd Cerdedd â Chymorth	Cydraddoldeb Strategol: Ein Gweithlu	Ymgysylltu: Sgwrs barhaus am Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol	Ysbrydoliaeth a Phrofiadau ar Hanes	Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd	Cynllunio Tymor Hir a Blaenoriaethu Prosiectau	Cyllid AD Gwasanaethau Democrataidd TG Cyfathrebu Gwasanaethau Cwsmer Codi Arian Allanol Perfformiad Eiddo Gweinyddiaeth
Cynnal Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n Ased Twristiaeth	Prosiectau Bioamrywiaeth a Chysylltedd	Hyrwyddo Buddion Iechyd y Parc	Cydraddoldeb Strategol: Ein Gwasanaethau	Gweithgareddau a Phrosiectau Cymunedol sydd o fudd i'r Parc ac i'r Bobl	Ysbrydoliaeth ac Ymgysylltu â Chelf		Codi Arian a Chreu Incwm	
Twristiaeth a Hamdden Gynaliadwy Rheoli a Hyrwyddo	Ymgysylltu a Gwirfoddoli o ran edrych ar ôl Ecosystemau'r Parc	Mentrau a Phrosiectau Iechyd a Lles	Tirweddau i Bawb: Cynhwysiant Cymdeithasol	Gwasanaeth Cynllunio: Gorfodi ac Ymgysylltu â'r Gymuned	Yr Amgylchedd Hanesyddol : Adeiladau Hanesyddol ac Archaeoleg Gymunedol	Rhinweddau Arbennig - Ysbrydoliaeth ac Ymgysylltu	Datblygu'r Gweithlu	
Ymgysylltu â Thwristiaeth a Chynulleidfaoedd Newydd	Partneriaethau Strategol Cadwraeth ac Ymgysylltu	Ysgolion a Chwarae yn yr Awyr Agored	Tirweddau i Bawb: Profiadau Cynhwysol	Cronfa Datblygu Cynaliadwy	Partneriaeth Treftadaeth a Chydweithio		Gwella'r Modd yr ydym yn Gweithio - Dulliau Digidol	
Cefnogi Busnesau Lleol	Cynllunio: RHA NG ac ymateb i golli bioamrywiaeth	Cynllunio: Tai Fforddiadwy	Ymgysylltu: Allgymorth, pobl ifanc a gwirfoddolwyr		Hyrwyddo'r Gymraeg: Sgiliau, cyfleoedd ac ysbrydoliaeth		Iechyd a Diogelwch	
Trawsnewid Cyflogaeth yn Sir Benfro	Edrych ar ôl y Coed yn y Dirwedd	Lles y Gweithlu					Datblygu'r Aelodau	
	Amgylchedd Morol a'r Blaendraeth						Cydymffurfiaeth a Safonau Corfforaethol	

Ymgyrchoedd yr Awdurdod ar Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

Er mwyn cynorthwyo i integreiddio cyflawni Effeithiau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol â Chynllunio Corfforaethol, mae'r Awdurdod wedi clustnodi 3 maes effaith allweddol y bydd ffrydiau gwaith sy'n cyflawni yn erbyn ei amcanion llesiant hefyd yn cyfrannu iddynt yn ystod 2020/21:

Ymateb i Newid Hinsawdd

- Cyfrannu at economi carbon isel i Gymru ac addasu i newid yn yr hinsawdd.
- Gwarchod a gwella priddoedd a hyrwyddo storio carbon naturiol.

Ymateb i Golli Bioamrywiaeth

- Amddiffyn a gwella ansawdd, graddau a chysylltedd bioamrywiaeth yn ôl graddfa.

Llwybr yr Arfordir yn 50: Tirweddau i Bawb

- Darparu a hyrwyddo cyfleoedd hamdden awyr agored cynaliadwy i bawb.
- Cyflwyno hamdden a dysgu / chwarae egniol yn yr awyr agored, yn seiliedig ar yr amgylchedd, treftadaeth a'r celfyddydau.

Mae dewis y tri maes blaenoriaeth hyn ar gyfer 2020/21 yn amlygu:

- ➡ Bod adroddiad dros dro [CNC ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol](#) yn tynnu sylw at y ffaith bod newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth yn heriau byd-eang sy'n gysylltiedig â'i gilydd. Mae'r Awdurdod, drwy ddefnyddio'i brofiad blaenorol, ei uchelgais gyfredol a sgiliau a gwybodaeth ei staff, mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau hyn.
- ➡ 2020 yw hanner canmlwyddiant Llwybr yr Arfordir sy'n gyfle i ddathlu'r modd y mae'r llwyddiant hwn wedi esgor ar gyfleoedd i fwy o bobl gael profiad o Dirwedd y Parc. Hefyd mae'n galluogi'r Awdurdod i edrych i'r dyfodol i ddatblygu ymhellach y cyfleoedd eraill yn y Parc sy'n helpu mwy o bobl i allu manteisio ar ei Rinweddau Arbennig ac elwa ohonynt.

Amcan Llesiant Llewyrchus

Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden.

Ffrydiau Gwaith sy'n cyfrannu at yr Amcan hwn:

Polisiâu Cynllunio a'r Gwasanaeth Cynllunio Gweithredu Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig a chyflawni gwasanaeth cynllunio effeithiol sy'n cynnal economi gynaliadwy.	Cynnal Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n Ased Twristiaeth Parhau i sicrhau bod y rhwydwaith Llwybr Arfordir Sir Benfro a Hawliau Tramwy yn parhau i fod yn ased twristiaeth a hamdden allweddol sydd o fudd i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol ac sy'n cefnogi'r economi dwristiaeth leol.	Twristiaeth a Hamdden Gynaliadwy Rheoli a Hyrwyddo Gweithio gydag eraill i gymryd agwedd strategol a chynaliadwy tuag at hyrwyddo a rheoli'r Parc, y cyrchfannau poblogaidd yn y Parc, a'i rinweddau arbennig fel cyrchfan i dwristiaid a hamdden. Gan gynnwys gweithgareddau ategol sy'n helpu i ymestyn y tymor twristiaeth traddodiadol.
Ymgysylltu â Thwristiaeth a Chynulleidfaoedd Newydd Hwyluso cyrraedd cynulleidfaoedd newydd drwy weithgareddau'r Parcmyn Haf Tymhorol, y Prosiect Llwybrau Celtaidd, ail-sefydlu Oriel y Parc fel canolfan ddarganfod, treialu pwyntiau darganfod ac ymgysylltu fwyfwy â busnesau lleol.	Cefnogi Busnesau Lleol Cefnogi busnesau lleol drwy gyfleoedd yn ein canolfannau a thrwy arferion caffael cynaliadwy.	Trawsnewid Cyflogaeth yn Sir Benfro Hyrwyddo datblygu sgiliau yn Sir Benfro drwy gynnig lleoliadau gwaith a chyfleoedd eraill.

Amcan Llesiant Cydnerth

Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol.

Ffrydiau Gwaith sy'n cyfrannu at yr Amcan hwn:

Gwasanaeth Rheoli Tir Cadwraeth Parhau i gyflawni a datblygu gweithgareddau Rheoli Tir yr Awdurdod drwy'r cynllun Gwarchod y Parc, y gweithgareddau ar ein hystâd sy'n eiddo i ni neu ar brydles i ni, ac ymgysylltu â'r diwydiant llaeth a ffermwyr.	Prosiectau Bioamrywiaeth a Chysylltedd Datblygu a chyflawni prosiectau fydd yn datblygu ymhellach ein hymagwedd at fioamrywiaeth a'r cysylltiad rhwng cynefinoedd.	Ymgysylltu a Gwirfoddoli o ran edrych ar ôl Ecosystemau'r Parc Ymgysylltu a gweithio gyda gwirfoddolwyr, disgyblion ysgol, trydydd sector, darparwyr twristiaeth, cymunedau ac ymwelwyr mewn camau sy'n gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol..
Partneriaethau Strategol Cadwraeth ac Ymgysylltu Cyfrannu at rwydweithiau partneriaeth a'u cynorthwyo i gyflawni cynlluniau gweithredu sy'n cefnogi Cynllun Adfer Natur Sir Benfro. Cyfrannu at gyfleoedd i ddylanwadu ar bolisi'r DU a Chymru ar reoli tir yn dilyn gadael yr Undeb Ewropeaidd.	Cynllunio: Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ac ymateb i golli bioamrywiaeth Gweithredu polisiau cynllunio a defnyddio dyletswydd A6 i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu datblygu yn gynaliadwy a bod rhinweddau arbennig y Parc yn cael eu diogelu a'u gwella drwy'r gwasanaeth cynllunio.	Edrych ar ôl y Coed yn y Dirwedd Parhau i ddarparu gwasanaethau i warchod coed, ymateb i'r clefyd coed ynn yn y Parc Cenedlaethol a chefnogi cyfleoedd i wirfoddoli ar waith trin coed.
Amgylchedd Morol a'r Blaendraeth Gweithio gyda phartneriaid strategol, ymwelwyr, gwirfoddolwyr a chymunedau i gymryd camau sy'n helpu i ddiogelu'r Amgylchedd Morol a hwyluso'i ddefnydd i storio mwy o garbon.		

Amcan Llesiant Iechyd a Lles

Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwu wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau.

Ffrydiau Gwaith sy'n cyfrannu at yr Amcan hwn:

Cyfleoedd Cerdded â Chymorth Parhau i gynnig cyfleoedd cerdded â chymorth yn y Parc a'r cyffiniau drwy'r cynllun Dewch i Gerdded a datblygu ein dulliau ymhellach drwy'r prosiect yng Ngorllewin Cymru Cerdded er Lles.	Hyrwyddo Buddion Iechyd y Parc Parhau i ddatblygu cyfleoedd strategol i weithio mewn partneriaeth i wella iechyd pobl, a chyflawni gweithgareddau sy'n dangos ac yn hyrwyddo lles i iechyd yn y Parc.	Mentrau a Phrosiectau Iechyd a Lles Hyrwyddo llesiant pobl o bob oed drwy ddatblygu, cyflawni a gwerthuso mentrau sy'n canolbwyntio ar wella iechyd meddwl a iechyd corfforol, a mynd i'r afael ag unigrwydd cymdeithasol, yn enwedig drwy wirfoddoli.
Ysgolion a Chwarae yn yr Awyr Agored Rhoi cyfle i blant cyn-ysgol, plant ysgol a phobl ifanc elwa o addysg awyr agored a chwarae yn yr awyr agored. Grymuso ysgolion i ennyn cyfranogiad disgyblion mewn sesiynau addysg yn yr awyr agored.	Cynllunio: Tai Fforddiadwy Defnyddio polisïau cynllunio a chyfraniadau tai fforddiadwy A106 i ddarparu tai fforddiadwy.	Lles y Gweithlu Adolygu ein gweithgareddau llesiant a'r hyn a gynigir i'r staff, ac adolygu'r polisïau perthnasol i sicrhau eu bod yn amlygu arfer gorau.

Amcan Llesiant Cydraddoldeb

Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC.

Ffrydiau Gwaith sy'n cyfrannu at yr Amcan hwn:

Cydraddoldeb Strategol: Ein Gweithlu

Cychwyn ar y gwaith o gynyddu llwybrau posibl i gyflogaeth ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu, a chymryd camau i fynd i'r afael â'r bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau a'i ddadansoddi ymhellach.

Cydraddoldeb Strategol: Ein Gwasanaethau

Datblygu cynllun hyfforddi a darparu hyfforddiant ac arweiniad i'r staff i'w helpu i gyflwyno, caffael a dylunio gwasanaethau hygyrch a chynhwysol. Cefnogi ein Canolfannau i ddatblygu profiadau cynhwysol i ymwelwyr.

Tirweddau i Bawb: Cynhwysiant Cymdeithasol

Cyflawni gwaith cynhwysiant cymdeithasol sy'n chwalu'r rhwystrau i gael mynediad i'r Parc a'i fuddion, gan gynnwys y rhwystrau sy'n ymwneud â ymwneud â thlodi gwledig a phlant.

Tirweddau i Bawb: Profiadau Cynhwysol

Hyrwyddo a chynnal tirweddau i bawb drwy'r prosiect Profiadau i Bawb, datblygu'r cynllun cadeiriau olwyn y traeth a hyrwyddo cerdded i bob un o'r adnoddau.

Ymgysylltu: Allgymorth, pobl ifanc a gwirfoddolwyr

Parhau i geisio cyfleoedd i gynnwys ystod fwy amrywiol o bobl i ddylanwadu ar waith yr Awdurdod, yn enwedig drwy weithgareddau allgymorth, datblygu mecanweithiau i bobl ifanc ddylanwadu ar waith yr Awdurdod, a'r fforwm gwirfoddolwyr.

Amcan Llesiant Cymunedol

Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i gael y gorau o'r Parc Cenedlaethol.

Ffrydiau Gwaith sy'n cyfrannu at yr Amcan hwn:

Ymgysylltu: Sgwrs barhaus am Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol	Gweithgareddau a Phrosiectau Cymunedol sydd o fudd i'r Parc ac i'r Bobl	Cronfa Datblygu Cynaliadwy
Cyflawni gweithgaredd allgymorth o ymgysylltu sy'n cynorthwyo cymunedau a rhanddeiliaid i gymryd rhan mewn sgwrs barhaus am y Parc, ac i ddylanwadu ar brosiectau sy'n cyflawni effeithiau'r Cynllun. Dathlu cyfraniad eraill i gyflawni'r Cynllun.	Hyrwyddo cydnerthu cymunedol drwy gynnwys cymunedau mewn prosiectau, gwirfoddoli a chyfleoedd gweithredu cymdeithasol yn y Parc, cymryd rhan mewn cyfarfodydd rhanddeiliaid cymunedol, a defnyddio asedau'r Parc i gynnal cyfleoedd i gymunedau ddod at ei gilydd. Dathlu'r berthynas rhwng cymunedau â'r dirwedd drwy weithgareddau dathlu Llwybr yr Arfordir yn 50.	Ailffocysu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy fel bod y gronfa yn cefnogi pobl i ddatblygu prosiectau arloesol sy'n canolbwyntio ar ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd. Gweithio i sicrhau bod mwy o bobl yn dod i wybod am y gronfa, a gwella ansawdd y ceisiadau i'r gronfa.
Gwasanaeth Cynllunio: Gorfodi ac Ymgysylltu â'r Gymuned Cyflawni gwasanaeth effeithiol o orfodi rheolau cynllunio gyda chefnogaeth y gymuned, a pharhau i ymgysylltu â chynghorau cymuned.		

Amcan Llesiant Diwylliant

Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal.

Ffrydiau Gwaith sy'n cyfrannu at yr Amcan hwn:

Ysbrydoliaeth a Phrofiadau ar Hanes

Hyrwyddo diwylliant ac amgylchedd hanesyddol drwy Gastell Caeriw a Chastell Henllys, rhaglen ysgolion, gwaith dehongli a digwyddiadau a gweithgareddau yr Awdurdod.

Ysbrydoliaeth ac Ymgysylltu â Chelf

Ennyn diddordeb pobl yn y gweithiau celf sy'n cael eu harddangos yn Oriel y Parc a pharhau i gefnogi cynllun artist preswyl yr Oriel.

Yr Amgylchedd Hanesyddol : Adeiladau Hanesyddol ac Archaeoleg Gymunedol

Cynghori perchnogion adeiladau a safleoedd hanesyddol a chefnogi grwpiau cymunedol ac ysgolion yn y Parc i adfer safleoedd o ddiddordeb hanesyddol.

Partneriaeth Treftadaeth a Chydweithio

Datblygu mwy o gyfleoedd a chysylltiadau i weithio mewn partneriaeth rhwng y canolfannau â sefydliadau a rhanddeiliaid eraill yn y sector treftadaeth, celfyddydau a diwylliant.

Hyrwyddo'r Gymraeg: Sgiliau, cyfleoedd ac ysbrydoliaeth

Parhau i ddatblygu cyfleoedd i ddefnyddwyr y gwasanaeth, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr ymgysylltu â'r Parc yn Gymraeg, gan gynnwys datblygu Castell Henllys fel canolfan y Gymraeg. Annog y staff i ddysgu a siarad Cymraeg yn y gweithle a datblygu cynllun mentora staff i hwyluso hyn.

Amcan Llesiant Byd-eang

Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.

Ffrydiau Gwaith sy'n cyfrannu at yr Amcan hwn:

Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd	Rhinweddau Arbennig: Ysbrydoliaeth ac Ymgysylltu
Hyrwyddo dulliau carbon niwtral ac effeithlonrwydd adnoddau yn ein gwaith ac yn y Parc, gan gynnwys Gwyrddio ein Fflyd a chefnogi trafnidiaeth gynaliadwy yn y Parc. Datblygu prosiectau all helpu i wella storfeydd carbon y Parc yn ôl graddfa. Gweithio gydag eraill i ymateb i risgiau newid yn yr hinsawdd.	Rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ysgol, cymunedau ac ymwelwyr ddarganfod, ymgysylltu a dysgu am Rinweddau Arbennig y Parc drwy weithgareddau, dehongli a chyfleoedd gwyddoniaeth dinasyddion. Alinio ein rhaglen addysg â'r cwricwlwm cenedlaethol newydd ar gyfer Cymru fel y gall plant barhau i elwa ar gyfleoedd dysgu yn y Parc.

Llywodraethu, Cynaliadwyedd Ariannol, Datblygiad a Gwydnwch y Gweithlu

Ffrydiau Gwaith sy'n cyfrannu at yr Amcan hwn:

Cynllunio Tymor Hir a Blaenoriaethu Prosiectau Cynnal gweithgareddau i gefnogi cynllunio tymor hir corfforaethol ac ariannol. Monitro ac ymateb i effeithiau a chyfleoedd o ran deddfwriaeth, polisïau a datblygiad gweithredol ar ôl tynnu allan o'r UE.	Codi Arian a Chreu Incwm Codi arian o ffynonellau eraill a chefnogi Ymddiriedolaeth Elusennol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ei weithgareddau.	Datblygu'r Gweithlu Adolygu'r arferion Adnoddau Dynol cyfredol a datblygu Cynllun Pobl i hybu datblygiad y gweithlu ar draws yr Awdurdod, gan helpu i sicrhau bod yr Awdurdod yn lle gwych i weithio a bod gan staff y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni amcanion yr Awdurdod.
Gwella'r Modd yr ydym yn Gweithio: Dulliau Digidol Parhau â gwaith yr Awdurdod ar drawsnewid digidol, gan ganolbwyntio eleni ar fwy o ddigideiddio'r gwasanaethau cynllunio a gweithredu'r system Office 2016 ar draws yr Awdurdod, a system AD a system rheoli perfformiad newydd.	Iechyd a Diogelwch Sicrhau bod mecanweithiau effeithiol ar waith i atal ac ymateb i ddigwyddiadau iechyd a diogelwch.	Datblygu'r Aelodau Parhau i gynorthwyo'r Pwyllgor Cynorthwyo a Datblygu'r Aelodau ar Ddatblygu Sgiliau, a chefnogi eu gweithgareddau mewn perthynas â Siarter Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau.
Cydymffurfiaeth a Safonau Corfforaethol Ymateb i argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilio Mewnol. Gwella'r modd yr ydym yn cyfleu'r polisïau corfforaethol i'r staff, integreiddio cydymffurfiaeth yn yr arferion gwaith, a hyrwyddo gofal cwsmer o safon uchel.		